

## CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 7fed o Ionawr 2020 yn Yr Hen Ysgol

Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

### Presennol

Cadeirydd: Arwel Evans

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Llinos Davies, Lon Davies, Sarah-Jane Absalom

Cynghorydd Sir: Cyng. Cris Tomos

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Ymddiheiriadau:- Ieuan Davies, Robin Phillips

### Cyfarfod - 02.12.19

Cynigodd Lon Davies ac eiliodd Ceirwyn John fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

### Materion yn codi o'r cofnodion

77. Helen wedi derbyn anfoneb wrth Julie Charlton ar gyfer y coed Nadolig I Eglwyswrw a Brynberian. Pris £160.00

78. Helen wedi cysylltu a Cyngor sir Benfro ynglyn a car ger Gernos sydd yna os misoedd.

### Gohebiaeth

79. Cyfanwsm yn y banc 25.12.19 - £3,440.76

80. Cyngor Sir Benfro gwybodaeth precept 2020/21 – cynigodd Ceirwyn John ac eiliodd Lon Davies I gadw'r precept I £5,000.00 y flwyddyn.

81. Taliad Precept - £1,667.00

82. Anfoneb Dylan Evans am torri porfa o amgylch y pentref £35.00 – Cyn trafod fe wnaeth Ceirwyn John a Helen Evans datgan diddordeb yn y mater. Cynigodd Llinos Davies ac eiliodd Sarah-Jane Absalom i'r cyngor dalu'r anfoneb.

83. Eglwys St'Cristiolus – Taliad am y llif oleuadau ac hefyd cyfraniad o £10.00 ar gyfer goleuadau coeden Nadolig y pentref. Cyfraniad o £160.00. Cynigodd Sarah-Jane Absalom ac eiliodd Enid Cole i'r cyngor dalu.

84. Treuliau'r clerc Mai - Rhagfyr 2019. Anfoneb o £850.00 a £27.70. Cyn trafod fe wnaeth Ceirwyn John a Helen Evans datgan diddordeb yn y mater. Cynigodd Sarah-Jane Absalom ac eiliodd Llinos Davies i'r Cyngor dalu.

85. Llythyr wrth Clebran yn gofyn am gais ariannol – Cyn trafod fe wnaeth y Cyng Cris Tomos datgan diddordeb yn y mater. Cynigodd Llinos Davies ac eiliodd Lon Davies cyfraniad o £100.00

### Unrhyw Fater Arall

86. Cyngor Sir Benfro – Gwybodaeth Cyllid 2020/21 – Dosbarthwyd y wybodaeth I pawb.
87. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio wrth Mr. S. Webb, Glynhafren, Eglwyswrw – Cais ar gyfer addasu ac gwneud estyniad. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.
88. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Parc Tŷ Croes, Eglwyswrw – Cais ar gyfer adeiladu swyddfa B1 a lle parcio yn gysylltiedig.
89. Llythyr wrth Ceri Davies ar rhan Eisteddfod Brynberian yn gofyn am gais arainnol – Cyn trafod fe wnaeth Llinos Davies ac Lon Davies datgan diddordeb yn y mater. Cynigodd Sarah-Jane Absalom ac eiliodd Enid Cole cyfraniad o £100.00
90. Fe ddwedodd Arwel ynglyn a golau ger Capel Pontcynon a Neuadd Ffynnongroes ddim yn gweithio. Helen I gysylltu a Cyngor Sir Benfro.

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 4ydd o Chwefror am 8.00y.h.**

**Terfynwyd y Cyfarfod am 8.45 y.h.**